



Cyflwyniad i Ddatganiad  
Cyfrifon y Comisiynydd  
Heddlu a Throsedd  
a'r Grŵp

2021/22

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES





## Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Yn dilyn fy etholiad ym mis Mai 2021, cyhoeddais Gynllun Heddlu a Throsedd newydd gyda blaenoriaethau newydd:

- Cyflawni Cymdogaethau Diogelach
  - Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
  - Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
  - Gwella diogelwch ar y ffyrdd
- Cynorthwyo Dioddefwyr a Chymunedau
  - Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
  - Diogelu pobl fregus gan gynnwys plant
  - Ymdrin ac atal troseddau seiber
  - Sefydlu panel dioddefwyr
  - Atal a mynd i'r afael â Throsedd Casineb
- System Cyfiawnder Troseddol Teg ac Effeithiol
  - Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
  - Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
  - Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
  - Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

At hynny, roedd y pum pwynt ffocws pellach er mwyn ymdrin â'r sefyllfa frys yn 2020-2021 yn parhau'n berthnasol yn 2021-2022. Y rhain oedd:

- Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl adnoddau digonol i ymateb i'r argyfwng
- Sicrhau, ar ran ein cymunedau bod yr heddlu yn ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, digonol, cymesur ac yn foesol
- Hwyluso partneriaeth effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau yn gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
- Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr trosedd gan gynnig grantiau ar gyfer pwrpasau plismona a lleihau niwed
- Sicrhau bod iechyd tymor hir Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei ddiogelu drwy fonitro cynllun a gweithgareddau adfer y sefydliad y tu hwnt i argyfwng Covid-19.

Cymeradwywyd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2021-2022 o £173.365m ar 2 Chwefror 2021. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd yng nghyllid y llywodraeth a gyfeiriwyd at gynyddu nifer y swyddogion ar gyfer cam olaf Ymgyrch Uplift (y cynllun i gynyddu nifer y swyddogion gan 20,000 yng Nghymru a Lloegr)

Yr wyf yn falch o weld, er gwaethaf yr amodau heriol, fod cyllidebau'n parhau i gael eu rheoli'n dda. Unwaith eto, nodwyd arbedion yn ystod y flwyddyn, cyflawniad i ymfalchïo ynddo o ystyried yr arbedion sylweddol a gyflawnwyd eisoes dros y 10 mlynedd diwethaf. Defnyddiwyd yr arbedion hyn i wrthbwysu'r gwariant ychwanegol, sy'n golygu y gall y Prif Gwnstabl a minnau symud ymlaen yn hyderus, gan wybod bod y sefydliadau yr ydym yn eu harwain mor gadarn yn ariannol ag y gallant fod mewn cyfnod o ansicrwydd o'r fath.

### **Andy Dunbobbin**

Comisiynydd Heddlu a Throsedd



## Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22 (CIPFA/LASAAC) yn rhoi arweiniad i ni ar sut y dylem baratoi ein cyfrifon i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ac hefyd yn unol â deddfwriaeth, sy'n gofyn i ni ddangos mantolen cronfeydd y trethdalwyr (arian wrth gefn a ellir eu defnyddio) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tra bod rhaid i ni gydymffurfio gyda'r gofynion hyn wrth baratoi ein Datganiad Cyfrifon ar gyfer y pwrpas o osod treth y cyngor a monitro ein hincwm a'n gwariant, gallwn fesur ein perfformiad ariannol yn y flwyddyn drwy gymharu ein cyllideb gydag ein halldro (incwm gwirioneddol a gwariant yn y flwyddyn) a'r effaith ar y gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy.

Oherwydd pandemig Covid-19, a'r newidiadau a ddeilliodd o hynny i'r galw ac arferion gwaith, roedd patrymau gwirioneddol incwm a gwariant yn amrywio'n sylweddol o'r cyllidebau. Mae rhai o'r amrywiannau hyn yn cynrychioli arbedion gwirioneddol, tra bod eraill yn ymwneud ag oedi wrth weithgarwch. Mae'r tanwariant hwn yn cael ei ddyrannu i gronfeydd wrth gefn a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein nodau wrth i ni ddelio â chyfraddau chwyddiant eithriadol o uchel ar hyn o bryd, a hefyd dal i fyny ar weithgareddau y bu'n rhaid eu gohirio oherwydd y pandemig.

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw derbynnydd cychwynnol pob incwm, p'un ai os yw'r arian yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Heddlu. Am y rheswm hwn, er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Llywodraeth Leol, o fewn y cyfrifon fe welwch symiau uwch o lawer yng nghyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd na'r disgwyl yn seiliedig ar y gwariant a reolir gan y swyddfa hon. Hefyd, mae 'na eitemau y mae'n rhaid iddynt ymddangos ar daflen mantolen y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan nad oes hawl gan y Prif Gwnstabl fod yn berchen arnynt fel tir ac adeiladau, arian yn weddill neu ddiffygion ar y cronfeydd pensiwn. Mae'r colofn grŵp ar bob un o'r datganiadau statudol yn dangos y safle cyffredinol ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau rhwng y ddau gorff.

**Kate Jackson**

Prif Swyddog Cyllid

## AR DDIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL TROSLWYDDODD Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD £9.610M I'R CRONFEYDD WRTH GEFN:

Gwariant Refeniw	Cyllideb Ddiwygiedig 2021/2022	Alldro (Gwirioneddol) 2021/22	Amrywiant Gorwario/Tanwario
	£m	£m	£m
Costau Gweithwyr	146.594	145.581	(1.013)
Pensiynau'r Heddlu	3.281	3.513	0.232
Costau nad yw'n gysylltiedig â staff (gan gynnwys cynlluniau wrth gefn)	38.370	35.710	(2.660)
Arian cyfalaf o'r gyllideb refeniw	4.354	4.694	0.340
Cyllid cyfalaf o gronfeydd wrth gefn	0.564	0.564	-
Cronfa Diogelwch Cymunedol a Phartneriaid	5.550	5.531	(0.019)
Cydweithrediadau Cenedlaethol (a gynhelir gan Heddlu Gogledd Cymru)	3.366	3.366	-
Incwm	(30.648)	(33.922)	(3.274)
<b>Gwariant Gweithredu Net</b>	<b>171.431</b>	<b>165.037</b>	<b>(6.394)</b>
<b>Gohirio trosglwyddo grant hanesyddol o grantiau'r llywodraeth</b>		<b>(1.282)</b>	<b>(1.282)</b>
Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Refeniw)	2.498	8.303	5.805
Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Cyfalaf)	(0.564)	(0.564)	-
Trosglwyddiadau grant hanesyddol i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (Refeniw)		1.282	1.282
Trosglwyddiad i/(o'r) gronfa gyffredinol	-	0.589	0.589
<b>Cyfanswm trosglwyddiadau i/(o'r) cronfeydd wrth gefn</b>	<b>1.934</b>	<b>9.610</b>	<b>6.394</b>
<b>Gwariant cyffredinol net</b>	<b>173.365</b>	<b>173.365</b>	<b>-</b>

Y prif reswm am danwario refeniw £6.394m yw:

### **Gweithwyr - tanwariant £1.013m**

Tâl i swyddogion a staff yw'r eitem unigol fwyaf yn y gyllideb, felly er bod y tanwariant ar gyflogau ar £1.285m o fewn 1% i'r gyllideb flynyddol, mae hyn yn gyfran fawr o'r amrywiant cyffredinol. Roedd y tanwariant hwn o ganlyniad i dwf y cytunwyd arno yn cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn, lle'r oedd y gyllideb yn caniatáu i staff a swyddogion fod ar waith drwy gydol y cyfnod. Roedd amrywiannau eraill yn cynnwys goramser ychwanegol oherwydd cyd-gymorth, ac arbedion mewn hyfforddiant, lwfansau a chostau staff eraill.

### **Costau Pensiynau Uniongyrchol – gorwariant o £0.232m**

Roedd hyn o ganlyniad i ymddeoliadau salwch ychwanegol, a CPI uwch na'r disgwyl, a gafodd effaith ganlyniadol ar daliadau Pensiwn Anafiadau.

### **Costau Rhedeg Nad Ydynt Yn Rhai Staff**

Mae hyn yn cynnwys nifer o benawdau, y prif amrywiannau yw:

#### **Safleoedd - tanwario £0.646m**

Mae amrywiannau mawr yn cynnwys tanwariant o £0.288m oherwydd oedi gyda'r gwaith cynnal a chadw arfaethedig. Tanwariodd cyllidebau ynni £0.187m oherwydd bod y defnydd a'r pris yn is na'r disgwyl.

#### **Trafnidiaeth - tanwario £0.557m**

Roedd tanwariant lwfansau Car a Theithio o £0.235m wrth i swyddogion a staff weithio gartref, gyda llai neu ddim teithio i gyfarfodydd. Tanwariodd costau rhedeg cerbydau £0.102m, a'r prif gyfranwyr oedd lleihau costau trwsio tanwydd a damweiniau. Yr elfen olaf oedd bod costau Cymorth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu wedi'u tanwario o £0.220m.

#### **Technoleg gwybodaeth - tanwariant o £0.660m**

Mae hyn oherwydd rhai prosiectau datblygu na chawsant eu gweithredu'n llawn.

#### **Eraill nad ydynt yn staff (gan gynnwys argyfyngau) – tanwariant o £0.797m**

Mae £0.652m o'r tanwariant hwn yn ymwneud â chynlluniau wrth gefn – gan fod llawer o feysydd gwariant ar y gyllideb neu'n is na'r gyllideb, nid oedd angen dyrannu cynlluniau wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Ariannwyd costau ychwanegol o ganlyniad i Covid o'r gronfa wrth gefn, gan adael y cynlluniau wrth gefn ar gael at ddibenion eraill pe bai angen hyn.

### **Cyllid Cyfalaf**

Defnyddiwyd £0.340m ychwanegol i ariannu gwariant cyfalaf; bydd y defnydd hwn o danwariant refeniw yn lleihau benthyca yn y dyfodol.

**Derbyniwyd incwm ychwanegol, sy'n dod i £3.274m. Mae nifer o eitemau yn cynnwys:**

- Yr oedd incwm o secondiadau ac ad-daliadau eraill yn £0.407m yn fwy na'r gyllideb
- Roedd incwm arall yn £1.842m yn fwy na'r gyllideb. Un o'r prif gyfranwyr oedd Mutual Aid Income, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer G7 a CoP26. Cawsom incwm hefyd mewn perthynas â digwyddiadau, hyfforddiant ac ad-daliad ardrethi untro.
- Cyfanswm yr incwm grant ychwanegol oedd £1.109m, y derbyniwyd llawer ohono yn ail hanner y flwyddyn ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys: Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd (£0.243m), Ymgyrch Uplift (£0.084m), SCCH (£0.157m), Prentisiaethau (£0.204m), POCA (£0.154m), Cyflawnwyr (£0.078m) a Seiber (£0.049m); grantiau llai eraill (£0.096m).

Mae cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd wedi'i chynnwys yn yr uchod. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn oedd £0.955m a'r alldro oedd £0.885m. Roedd y tanwariant hwn o £0.070m yn ymwneud yn bennaf â swyddi gwag staff. Gwelwyd tanwariant arall mewn costau teithio a rhedeg swyddfeydd, gan fod y rhan fwyaf o staff yn parhau i weithio gartref, ac roedd llai o ofyniad i deithio i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Cafwyd tanwariant pellach o £0.067m ar Checkpoint, ynghyd â thanwariant o £0.019m ar y Gronfa Diogelwch Cymunedol.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd, sef cyfanswm o £5.531m yn 2021/22. Ariannwyd y rhain o gyllideb Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd, a grantiau amrywiol gan gynnwys: y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi dioddefwyr troseddau; a chan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen VAWDASV.

## Cydweithrediadau

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal y Rhwydwaith Ymchwilio i Wrthdrawiadau Fforensig (FCIN), a ffurfiwyd i alluogi achredu ymchwiliadau i wrthdrawiadau yn genedlaethol. Mae pob ardal blismona yng Nghymru a Lloegr wedi llofnodi cytundeb cydweithredu, sy'n cynnwys ariannu'r FCIM. 2021/22 oedd yr ail flwyddyn ar gyfer FCIN.

O'r cyfanswm o £8.328m a drosglwyddwyd i gronfeydd refeniw wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £1.048m yn ymwneud â phartneriaethau a chydweithio. Cedwir y symiau hyn ar ein mantolen, ond maent yn perthyn ar y cyd i bawb sy'n cymryd rhan yn y cydweithio.

Dangosir cysoniad rhwng yr alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu Grŵp, sy'n ymddangos ar dudalen 19 o'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r tabl gwariant refeniw yn cynnwys effaith gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar y cyfrif incwm a gwariant a'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau sydd â bywyd defnyddiol o fwy na blwyddyn, megis tir, adeiladau, cerbydau a rhywfaint o offer TG. Pan werthir asedau, rhaid trosglwyddo derbyniadau o fwy na £10,000 i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf, a dim ond i ariannu'r rhaglen gyfalaf neu i ad-dalu dyledion y gellir eu defnyddio. (I'r gwrthwyneb, mae'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd o'r enw y Gronfa Gyfalaf yn deillio o refeniw, a gall y Comisiynydd drosglwyddo symiau rhwng y gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfa wrth gefn a glustnodwyd fel y gwêl yn dda; caiff y cronfeydd wrth gefn hyn eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu dyrannu'n briodol i gyflawni cynlluniau'r Comisiynydd.)



Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2021/22 oedd £12.874m. Roedd ychwanegu llithriant yn cynyddu hyn i £15.794m. Roedd y rhaglen hon yn rhy uchelgeisiol, o ystyried y swm a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, ac effaith barhaus pandemig Covid. Yn bennaf oherwydd cyfyngiadau Covid cafodd y rhaglen ei hailbroffilio, gyda'r amcangyfrif diwygiedig ar ddiwedd chwarter 3 yn £8.325m. Fodd bynnag, gyda heriau'n bodoli ar draws pob maes gwariant cyfalaf, cynhaliwyd adolygiad pellach yn ystod chwarter 4, gyda'r amcangyfrif diwygiedig terfynol yn £4.740m ar gyfer 2021/22. Yr alldro terfynol oedd £4.240m.

Cynllun	Cyllideb 2021/22 (wedi'i hailbroffilio)	Gwariant 2021/22	Tanwariant/llithriant
	£m	£m	£m
Stadau	1.159	1.133	(0.026)
Cerbydau ac offer	1.080	0.889	(0.191)
TG a Chyfathrebiadau	2.501	2.218	(0.283)
<b>Cyfanswm y rhaglen gyfalaf</b>	<b>4.740</b>	<b>4.240</b>	<b>(0.500)</b>

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw cronfeydd wrth gefn. Nid oes hawl ganddo osod cyllideb a allai adael y cronfeydd a ellir eu defnyddio wedi eu gordynnu. Mae crynodeb o'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn isod, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y Datganiad Cyfrifon.

Symudiadau yn y Cronfeydd 2020/21	Balans 1 Ebrill 2021 £m	Trosglwyddiadau allan 2021/22 £m	Trosglwyddiadau i mewn 2021/22 £m	Cyfanswm Symudiadau £m	Mantolen 31 Mawrth 2022 £m
<b>Cronfa wrth gefn</b>	<b>5.417</b>	<b>-</b>	<b>0.589</b>	<b>0.589</b>	<b>6.006</b>
<b>Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd:</b>					
Cronfa Gyfalaf wrth Gefn	3.002	(0.192)	1.000	0.808	3.810
Cronfa wrth Gefn Pensiynau Afiechyd	0.975	-	-	-	0.975
Cronfa wrth Gefn PFI	3.106	(0.188)	-	(0.188)	2.918
Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Difrifol	2.435	-	-	-	2.435
Cronfa Yswiriant wrth Gefn	1.173	-	0.388	0.388	1.561
Cronfa wrth gefn diogelwch a chynnal a chadw	1.892	(0.288)	-	(0.288)	1.604
Cronfa Rheoli Newid wrth Gefn	6.976	(0.653)	2.104	1.451	8.427

Cronfa hyfforddi wrth gefn	0.600	-	0.050	0.050	0.650
Cronfa wrth gefn Uplift	1.577	-	2.826	2.826	4.403
Cronfa wrth gefn ESN	0.158	-	0.750	0.750	0.908
Cronfa wrth gefn Covid	0.597	(0.313)	-	(0.313)	0.284
Cronfa wrth gefn PEQF	0.325	-	0.250	0.250	0.575
Cronfa Ynni	-	-	0.800	0.800	0.800
Cronfa Plismona Cymdogaethau wrth gefn	-	-	1.282	1.282	1.282
*Cronfa Balansau Partneriaethau wrth Gefn	0.733	(0.024)	0.243	0.219	0.952
*Cronfa wrth gefn FCIN	1.080	(0.101)	0.636	0.535	1.615
*MINERVA	-	-	0.294	0.294	0.294
Cronfa diogelwch cymunedol wrth gefn y Comisiynydd (SCHTh)	0.508	-	0.073	0.073	0.581
Checkpoint (SCHTh)	0.016	-	0.014	0.014	0.030
Cronfa gyfreithiol wrth gefn (SCHTh)	0.106	-	-	-	0.106
Cronfa Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth gefn	0.201	-	0.070	0.070	0.271
<b>Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd</b>	<b>25.460</b>	<b>(1.759)</b>	<b>10.780</b>	<b>9.021</b>	<b>34.481</b>
<b>Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn</b>	<b>30.877</b>	<b>(1.759)</b>	<b>11.369</b>	<b>9.610</b>	<b>40.487</b>
Cronfa wrth Gefn Derbynebaw Cyfalaf	2.084	(0.060)	0.326	0.266	2.350
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy</b>	<b>32.961</b>	<b>(1.819)</b>	<b>11.695</b>	<b>9.876</b>	<b>42.837</b>
<b>Cronfeydd wrth gefn y CHTh:</b>					
Cronfa wrth Gefn Gyffredinol	5.417	-	0.589	0.589	6.006
Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	23.647	(1.634)	9.607	7.973	31.620
Cronfa Derbynebaw Cyfalaf wrth Gefn	2.084	(0.060)	0.326	0.266	2.350
<b>Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y CHTh</b>	<b>31.148</b>	<b>(1.694)</b>	<b>10.522</b>	<b>8.828</b>	<b>39.976</b>
*Cronfeydd wrth gefn a ddelir ar gyfer cydweithredu	1.813	(0.125)	1.173	1.048	2.861
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn</b>	<b>32.961</b>	<b>(1.819)</b>	<b>11.695</b>	<b>9.876</b>	<b>42.837</b>

Mae'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (a ddangosir uchod) yn cynrychioli cydbwysedd cronfeydd y trethdalwr a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r fantolen hefyd yn cynnwys cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio, sy'n cael eu creu o'r trafodion sy'n ofynnol er mwyn i'r datganiadau cyfrifyddu gydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Parhaodd pandemig Covid-19 i gael effaith yn ystod 2021/22, a oedd yn golygu bod angen gohirio rhai gweithgareddau (fel hyfforddiant). Mae'r oedi hwn mewn gwariant wedi'i roi mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i sicrhau y gellir ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd yn y dyfodol, ac ni fydd angen cynyddu'r dreth gyngor i dalu am yr eitemau hyn.

Sefydlwyd cronfa ESN ar ddiwedd 2021/22. Bydd dyrannu swm bob blwyddyn i'r gronfa hon yn lleihau'r swm y mae angen i ni ei fenthycu at y diben hwn yn y dyfodol.

Mae'r swm o £1.282m wedi'i symud o gredydwr i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn berthnasol i grant gan y Swyddfa Gartref a oedd yn berthnasol i SCCH. Gan fod holl amodau'r grant wedi'u cyflawni ac nad oes yr un swm yn ad-daladwy i'r Swyddfa Gartref, mae'r swm wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Plismona Cymdogaethau wrth Gefn. Gall hon gael ei defnyddio i reoli newidiadau byr rybudd i'r Grantiau Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu, neu ariannu gofynion Plismona Cymdogaethau unigryw eraill.

Er bod llawer o amrywiadau sylweddol o ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2021/22, rheolwyd y cyllid yn dda yn ystod y flwyddyn, gydag oedi wrth wario yn cael ei roi mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau nad yw ôl-ffeithiau'r pandemig yn effeithio ar gyllidebau'r blynyddoedd i ddod. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn bellach yn 22% o'r gyllideb net flynyddol (18% ar 31 Mawrth 2021) – sy'n cyfateb i tua dau fis a hanner o wariant. Er bod gwerth y cronfeydd wrth gefn a gedwir yn cynyddu, rydym yn wynebu risgiau sylweddol. Cedwir £2.861m ar ran cydweithrediadau a phartneriaethau, ac felly nid ydynt i'w ddefnyddio yng Ngogledd Cymru yn unig. Oherwydd ffactorau fel ôl-ffeithiau pandemig Covid a'r gwrthdaro parhaus yn yr Wcráin, rydym yn gweld chwyddiant ar gyfraddau llawer uwch nag yr ydym wedi'i brofi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyda'r angen i ariannu ESN, a gweithgareddau a ohiriwyd yn ystod y pandemig, ac ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid yn y dyfodol, bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn allweddol i'n gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.